

## Hysbysiad archwilio

Hysbysiad o benodi'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

### Cyngor Cymuned Y Felinheli

Y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2024

1. Dyddiad cyhoeddi 1af o Orffennaf 2024
2. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, caiff unrhyw berson â buddiant gyfle i archwilio a gwneud copiâu o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol wrth wneud cais i:
3. Heather Jones Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor, 3 Maes Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TE [clerc@felinheli.org](mailto:clerc@felinheli.org) 07867 982518

rhwng oriau 9:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener

yn dechrau ar 01 Gorffennaf 2024

ac yn gorffen ar 26 Gorffennaf 2024

4. O 12 Medi 2024, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
  - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.
  - yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Yn gyntaf, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngor Cymunedol, Archwilio Cymru, 1 Prifddinas-Chwarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn [communitycouncilaudits@audit.cymru](mailto:communitycouncilaudits@audit.cymru).

5. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.